GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

HEP C u Later

# Hepatitis C

## Cael eich profi. Cael triniaeth. Gwella.

- **Mae hepatitis C yn cael ei ledaenu trwy gyswllt gwaed i waed â rhywun sydd â'r feirws.**
- **Gellir trin hepatitis C gyda chwrs syml o dabledi.**

- **Nid yw pawb sydd â hepatitis C yn cael symptomau.**
- **Os na chaiff y feirws ei drin, gall achosi niwed i'r afu a chanser yr afu.**
- **Ar ôl i chi wella, ni fydd gennych imiwnedd rhag y feirws a gallwch gael eich heintio eto os byddwch yn dod i gysylltiad â'r feirws eto.**

**Gallech fod mewn perygl o gael hepatitis C os ydych chi erioed wedi:**

- Cael rhyw heb ddiogelwch gyda rhywun a allai fod wedi cael hepatitis C, yn enwedig os oedd cyfleoedd i ddod i gyswllt gwaed i waed
- Cael triniaethau harddwch gan ddefnyddio nodwyddau nad oeddent efallai wedi'u sterileiddio, yn cynnwys colur lled-barhaol
- Cael tyllu eich corff, tatŵ, eillio rasel hir neu driniaeth aciwbigo gan ddefnyddio offer nad oedd efallai wedi'i sterileiddio.
- Cael trallwysiad gwaed cyn 1996
- Cael triniaeth ddeintyddol neu feddygol dramor mewn amodau aflan
- Rhannu nodwyddau neu offer arall a ddefnyddir ar gyfer chwistrellu a sniffian cyffuriau

**Holwch am brawf heddiw neu sganiwch y cod i archebu prawf am ddim**

**I gael rhagor o wybodaeth ewch i: icc.gig.cymru/hep-c/**

PHW Resources - Posters (new link).indd 2 16/07/2026 16:54